# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Mawrth 2021

Amser: 09.01 - 09.45

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Mark Isherwood AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Caroline Jones AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood, Dirprwy Glerc |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at ohirio'r eitemau a ganlyn tan 16 Mawrth:

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
  - Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021
  - Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021
  - Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) (Diwygio) 2021
  - Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2021

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.45pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 16 Mawrth 2021**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (45 munud)
  - Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021
  - Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021
  - Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) (Diwygio) 2021
  - Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2021

**Dydd Mawrth 23 Mawrth 2021 -**

- Datganiad gan y Gweinidog Addysg: Cymorth Iechyd Meddwl a Llesiant mewn Lleoliadau Addysgol (30 munud)
- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021 (15 munud)
- Dadl: Diwygiadau i Setliadau Llywodraeth Leol a'r Heddlu 2020-2021 (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 17 Mawrth 2021 -**

- Cynnig i benodi Comisiynydd Safonau'r Senedd (5 munud)

**Dydd Mercher 24 Mawrth 2021 -**

- Cynnig i Gymeradwyo'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd (5 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r rheoliadau i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, i gyflwyno adroddiad erbyn dydd Llun 22 Mawrth.

### 4.2 Trefniadau ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gael ei ddwyn i sylw Aelodau newydd o'r Senedd.

Nododd y Pwyllgor hefyd y goblygiadau ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth ar ddechrau'r Chweched Senedd, ac yn benodol, unrhyw oedi wrth sefydlu'r pwyllgor cyfrifol newydd o dan Reol Sefydlog 21.

## 5 Adroddiadau Rheolau Sefydlog Drafft

### 5.1 Newidiadau amrywiol

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr adroddiad drafft ac i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i'w drafod yn y Cyfarfod Llawn dydd Mercher 24 Mawrth.

### 5.2 Aelodaeth Pwyllgorau

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr adroddiad drafft ac i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i'w drafod yn y Cyfarfod Llawn dydd Mercher 24 Mawrth.

### 5.3 Adalw'r Senedd

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr adroddiad drafft ac i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i'w drafod yn y Cyfarfod Llawn dydd Mercher 24 Mawrth.

## 6 Rheolau Sefydlog

### 6.1 Adolygu'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â grwpiau gwleidyddol

Gwnaeth y Trefnydd gynnig diwygiedig ar gyfer diwygio'r Rheol Sefydlog, a gefnogwyd gan Sian Gwenllian. Nid oedd Mark Isherwood a Caroline Jones yn cefnogi'r cynnig newydd ac roeddent yn parhau i gefnogi cadw'r Rheol Sefydlog bresennol.

Bydd drafft diwygiedig o'r adroddiad, gan gynnwys canllawiau, yn cael ei ddosbarthu drwy e-bost, gyda'r bwriad o ddod i gytundeb ffurfiol yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.

## Unrhyw faterion eraill

### *Dyddiad cau ar gyfer Cwestiynau Ysgrifenedig cyn yr etholiad*

Yn y cyfarfod diwethaf, nododd y Pwyllgor Busnes yr angen i Aelodau ac ymgeiswyr gael eu trin ar sail mor gyfartal â phosibl yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, a chytunodd na ddylid cyflwyno Cwestiynau Ysgrifenedig yn ystod y cyfnod hwnnw. Cytunwyd ar ddyddiad cau o 19 Mawrth ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Ysgrifenedig.

Yn dilyn sylwadau, cynigiodd Mark Isherwood a Sian Gwenllian ymestyn yr dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Ysgrifenedig hyd at 29 Ebrill. Eglurodd y Trefnydd na

fyddai'r Llywodraeth yn ateb cwestiynau yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad, ac y gallai Aelodau ac ymgeiswyr fel ei gilydd ysgrifennu at Weinidogion i ofyn am wybodaeth.

Cytunodd mwyafrif o'r Pwyllgor Busnes i gadw at 19 Mawrth fel dyddiad cau.

*Aelodau sy'n gadael y Senedd*

Gofynnodd y Trefnydd a oes gan y Comisiwn unrhyw gynlluniau i gasglu barn a phrofiadau Aelodau sy’n gadael y Senedd, yn dilyn cwestiwn Alun Davies yn ystod y Datganiad Busnes yr wythnos diwethaf.

Dywedodd Clerc y Senedd y byddai'n falch o gwrdd ag Aelodau sy'n ymadael i drafod eu profiadau.

*Cyfarfod llawn olaf y Bumed Senedd*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddisodli'r eitem datganiadau 90 eiliad ar 24 Mawrth gyda datganiadau byr gan Aelodau sy'n ymadael. Byddai'r Aelodau a oedd wedi mynegi eu bwriad i ymddiswyddo yn etholiad 2021 yn cael cynnig y cyfle i siarad am 3 munud yr un.